DATGANIAD POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) wedi ymrwymo i gynnal eu gweithgareddau busnes yn unol â goblygiadau cyfreithiol fel sydd wedi ei nodi yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a holl ddeddfwriaethau eraill.

Mae CCG wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal system rheoli sy'n cwrdd gofynion ISO 45001:2018 ac yn mynd i, lle sy'n rhesymol ymarferol:

- Atal anaf ac iechyd gwael i holl weithwyr ac eraill sy'n berthnasol rhag ein gweithgareddau gwaith;
- Cynllunio, trefnu a pharhau i adolygu arferion gwaith i ddiogelu pawb a all eu heffeithio gan ein gweithgareddau;
- Darparu a chynnal cyfleusterau ac offer diogelwch priodol i weithgareddau gweithwyr;
- Darparu gwybodaeth angenrheidiol, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i weithwyr (ac eraill lle sy'n briodol) fel rhan o'r cynllun rheoli risg;
- Sicrhau bod trefniadau monitro ffurfiol wedi eu mabwysiadu i wirio mesuriadau rheoli cyfredol a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith;
- Sicrhau bod holl ddamweiniau a digwyddiadau wedi cael eu hymchwilio yn drylwyr;
- Sicrhau bod trefniadau cynllunio argyfwng mewn lle;
- Ymrwymo cyfranogiad gweithwyr i bob agwedd o'r System Rheoli Diogelwch;
- Sefydlu cyfathrebiad effeithiol sy'n annog pobl i gyfrannu tuag at iechyd a diogelwch;
- Darparu adnoddau ariannol a dynol digonol i gwrdd ag amcanion iechyd a diogelwch CCG.

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli iechyd a diogelwch o fewn CCG. Y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd, gyda chymorth person cymwys sy'n gyfrifol am sicrhau fod y Polisi ac amcanion iechyd a diogelwch yn cael eu rhaeadru drwy'r busnes.

Mae pawb sydd mewn swydd Rheoli/Goruchwylio yn gyfrifol am adolygu safonau ac ymarferion yn rheolaidd, asesu peryglon a risg, darparu llefydd gwaith sy'n gynhenid ddiogel ac i ddangos ymrwymiad clir a gweladwy i iechyd a diogelwch.

Mae gan holl weithwyr gyfrifoldeb i'w hunain, i'w cyd-weithwyr, tenantiaid ac i'r cyhoedd i weithio'n ddiogel. Mae ganddynt ddyletswydd i gyd-weithredu gyda CCG i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol ac i gynnal eu man gwaith a'u hoffer mewn cyflwr diogel; a ni ddylid camddefnyddio unrhyw beth sydd o fudd iechyd a diogelwch.

Mi fydd y datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch yma yn cael ei adolygu, ei ddiwygio a'i ddiweddaru fel sy'n angenrheidiol. Mae yna drefn effeithiol sydd wedi cael ei sefydlu a'i gynnal i ymgynghori a chyfathrebu ar bob lefel o reoli a gweithiwyr ar faterion yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles.

Y Prif Weithredwr

Llofnod	Dyddiad
	01/07/2018

Pencampwr IDAA Bwrdd

Llofnod	Dyddiad
	01/07/2018